Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.6.1 Codi arian - digwyddiadau

Rhagarweiniad

Digwyddiadau yw mathau cyhoeddus iawn o godi arian a medrant fod yn gyfle gwerthfawr i wella proffil eich elusen yn genedlaethol neu yn y gymuned leol. Nid digwyddiadau codi arian yw prif ffynonellau incwm y rhan fwyaf o fudiadau, er eu bod yn cynnig buddiannau ar wahân i rai ariannol yn unig, ag yn gallu arwain at gyfleoedd anuniongyrchol eraill.

Prif elfennau digwyddiadau codi arian llwyddiannus yw trefniadaeth dda, hyrwyddo effeithiol ac, yn anad dim, dychymyg. Y pwrpas sylfaenol yw cynnig mwynhad yn gyfnewid am arian y cyfranogwr; os yw pawb yn mwynhau'r digwyddiad, maen nhw'n debygol o roi mwy ac o gefnogi digwyddiadau yn y dyfodol.

Mae digwyddiadau'n ffordd boblogaidd o godi arian, a'r ddau brif fath yw digwyddiadau *torfol a noddir gan gyfranogwyr* neu *ddigwyddiadau tocyn* a gall y rhain fod o unrhyw faint neu gymhlethdod. Mae'r digwyddiadau elusennol mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- Digwyddiadau chwaraeon neu weithgaredd
- Digwyddiadau cerddorol a diwylliannol
- Dawnsfeydd, ciniawau, ocsiynau a digwyddiadau adloniant eraill
- Arddangosfeydd, dyddiau gŵyl a ffeiriau

Amcanion

Ar ôl gwneud yr ymchwil angenrheidiol a dod i'r casgliad eich bod am gynnal digwyddiad codi arian, rhaid ichi fod yn glir ynghylch beth yw amcanion y digwyddiad fel y gallwch benderfynu beth i'w wneud i'w cyflawni. Ai'r nod yw codi arian a dim byd arall, neu ddenu sylw'r cyfryngau i ddiolch i gefnogwyr neu i ddenu pobl newydd i gefnogi'ch elusen?

Manteision ac anfanteision

Gall digwyddiadau gynnig manteision helaeth fel:

- Codi incwm
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy gyhoeddusrwydd gan y cyfryngau
- Y cyfle i ddenu rhoddwyr mwy, neu sêr, yn ogystal â diolch i gefnogwyr a gwirfoddolwyr drwy gynnal digwyddiad pleserus.

I'r gwrthwyneb, gall rheoli digwyddiad fod yn waith caled ac mae ffactor risg uchel. Gall y buddsoddiad cychwynnol fod yn uchel (e.e. trwyddedau ayb) ac mae o hyd y posibilrwydd na fydd y digwyddiad yn codi llawer o arian os na chafodd ei drefnu'n ddigon da.

Trefnu digwyddiad codi arian

Y cam cyntaf gyda threfnu digwyddiad yw gwneud yr ymchwil angenrheidiol; fel y soniwyd uchod, dylech sefydlu beth yw amcanion y digwyddiad a sicrhau bod y gweithgaredd yn cyd-fynd ag amcanion elusennol y mudiad.

Dylai'r digwyddiad fod yn briodol i'r gynulleidfa darged a dylid ystyried maint potensial y grŵp a pha weithgareddau codi arian fydd yn apelio at y grŵp targed hwnnw.

Dylid dadansoddi'r manteision posibl a darogan yr enillion yn fras o'r buddsoddiad a faint y bydd angen ei godi iddo dalu ei ffordd. Mae angen sefydlu cyllideb glir a sicrhau bod yr holl gostau posibl yn cael eu cynnwys.

Dylid penderfynu pa elfennau fydd yn hanfodol i lwyddiant y digwyddiad a sut y cyflawnir y rhain; ac ystyried y risg bosibl i enw da'r mudiad a allai godi o ymgysylltu â digwyddiadau arbennig, cwmnïau cysylltiedig ac os bydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'r digwyddiad.

Dylid sicrhau bod cymorth yn cael ei roi gan yr holl staff, rheolwyr ac ymddiriedolwyr perthnasol ac ystyried yr amseru, h.y. a oes unrhyw ddigwyddiadau tebyg eraill tua'r un adeg neu a fydd unrhyw newid tymhorol yn cael effaith ar y digwyddiad.

Beth bynnag yw natur y digwyddiad, mae pump prif grŵp o bobl i'w cynnwys pan yn trefnu digwyddiad.

Y rhain yw:

- Noddwyr; gall busnesau gefnogi'r digwyddiad i'w helpu i gwrdd â'u hamcanion personol nhw.
- Y Cyfryngau; busnes y cyfryngau yw adrodd ar ddigwyddiadau fel rhai sy'n codi arian.
- Perfformwyr; mae'r rhain yn ganolog i'r digwyddiad ei hun, e.e ocsiwnïar, tîm pêl-droed, DJ.
- Y gynulleidfa; efallai y bydd pobl eisiau mynychu i gyfranogi neu dim ond i gefnogi'r elusen.
- Bydd rôl yr elusen yn rhoi ffocws i'r digwyddiad ac yn un o'r prif resymau y bydd y cefnogwyr yn mynychu.

Rheoli'r digwyddiad

Mae tri dull o reoli digwyddiad ac, i bob un, dylech sicrhau bod digon o amser wedi'i neilltuo i drefnu a recriwtio cefnogaeth:

- Bydd rheoli'r digwyddiad eich hun, neu'n defnyddio aelod arall o staff, yn mynd â thipyn o amser, er y bydd y profiad yn dysgu sgiliau gwerthfawr a allai fod o fudd i'r mudiad yn y dyfodol.
- Mae trefnydd proffesiynol yn debygol o godi ffi am y gwaith trefnu o ddydd i ddydd, neu efallai y bydd yn dewis cymryd cyfran o bris y tocyn. Os yw'n dewis yr olaf, maen nhw'n dod yn 'godwr arian proffesiynol' o dan y Ddeddf Elusennau a bydd angen cwrdd â gofynion penodol er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf.
- Sefydlu pwyllgor o bobl gydag amrywiaeth o sgiliau. Byddai'n well dewis cadeirydd gyda phrofiad blaenorol o reoli digwyddiad; gall y cadeirydd yna ddirprwyo tasgau i

aelodau o'r pwyllgor gyda'r sgiliau priodol, fel cyfrifydd i gynghori ar y gyllideb.

Pedair agwedd bwysig ar reoli digwyddiad yn llwyddiannus:

Bydd *cyllideb drylwyr* yn dangos faint o bobl y disgwylir iddynt fynychu fel amcangyfrif uchel ac isel, gan gynnwys pris y tocyn. Bydd y gyllideb yn gwneud asesiad buan o'r holl gostau a'r ffynonellau incwm tebygol, gan gynnwys unrhyw arian hapddigwyddiad.

Mwya'n byd o *amser* sydd ar gael i drefnu'r digwyddiad, tebyca'n byd y bydd o lwyddo.

Mae *contractau sy'n rhwymo'n gyfreithiol* wedi eu llofnodi gan y ddwy ochr yn hanfodol a, lle mae arian mwy yn y fantol, gwell fyddai gofyn am farn twrnai.

Bydd *gweinyddu da a chadw cofnodion trylwyr* yn helpu i gynyddu profiad o un flwyddyn i'r llall. Dylid cadw cofnod o bopeth o dystysgrifau yswiriant i dderbynebau, oherwydd bydd hyn yn helpu i wneud digwyddiadau'r dyfodol yn haws.

TAW a Threth Incwm

Nid yw treth yn daladwy ar roddion a roddir yn rhad ac am ddim i elusen. Fodd bynnag, ystyrir bod gwerthu tocynnau i'r cyhoedd yn fasnachu yn hytrach na'n godi arian, ac efallai y bydd angen ichi dalu treth arno. Gellir rhannu prisiau tocynnau'n ddau; pris rhesymol am fynychu digwyddiad, a rhodd. Os yw wedi'i eirio'n glir bod yr elfen rodd yn ddewisol, yna dim ond y pris mynychu fyddai'n cael ei drin fel incwm i bwrpas talu TAW.

Rhoddir consesiwn (ESCC4) i rai sy'n trefnu digwyddiadau achlysurol fel bo'r incwm yn cael ei drin fel rhoddion ac wedi'i eithrio felly o dalu treth. Am fwy o wybodaeth, gweler y cyhoeddiad *Trading and business activities* gan Gyllid a Thollau EM.

Hyrwyddo

Un o brif fanteision digwyddiad llwyddiannus yw gallu gwneud cysylltiadau ar gyfer digwyddiadau eraill yn y dyfodol. Dylech benderfynu pwy yw marchnad darged eich digwyddiad, y ffordd orau o'i chyrraedd a sut i ddenu cynulleidfaoedd newydd. Dyma enghreifftiau o dechnegau hyrwyddo:

- Drwy gynnwys eich gorsaf radio leol, cynnig tocynnau am ddim fel gwobrau a gwahodd newyddiadurwyr i'r digwyddiad.
- Drwy hysbysebu yn y wasg leol, ar y radio lleol ac ar unrhyw gyfryngau targed eraill.
- Dylech ofyn i sêr fynychu os gallwch; naill ai i gyflwyno, i berfformio neu ddim ond i gyhoeddi'r raffl efallai.
- Gallech roi tocynnau rhad ac am ddim drwy grwpiau a rhwydweithiau lleol fel grwpiau ysgol, neu'r Ysbyty lleol, i greu diddordeb.
- Gallech greu taflenni a phosteri lliwgar a chreadigol a'u dangos mewn gymaint o fannau cyhoeddus â phosibl.

Lleihau'r risgiau

Hyd yn oed drwy gyllidebu, trefnu a marchnata'n drylwyr, bydd rhai

digwyddiadau'n fethiant ac mae sawl ffordd y gallwch leihau'r risgiau:

- Gofynnwch i noddwr dalu am yr holl gostau rhedeg fel bod 100% o'r gwerthiannau tocynnau yn mynd i'r elusen.
- Trefnwch bwyllgor o gefnogwyr i fod yn gyfrifol am werthu canran o'r tocynnau i sicrhau y bydd rhai o leiaf yn mynychu.
- Trefnwch fod gymaint â phosibl o bethau'n cael eu rhoi, benthyg neu noddi i leihau'r costau.
- Yswiriant; efallai y bydd yn bosibl yswirio yn erbyn atebolrwydd cyhoeddus, lladrata, difrod neu hyd yn oed yn erbyn tywydd drwg.

Y Bwrdd Safonau Codi Arian

Mae'r Bwrdd Safonau Codi Arian yn gweithredu cynllun codi arian hunan-reoledig y DU. Drwy ymaelodi â'r cynllun hwn, mae'n sicrhau bod elusennau a chodwyr arian yn cadw at Godau Arferion Codi Arian y Sefydliad Codi Arian ac Addewid Codi Arian y Bwrdd Safonau Codi Arian.

Drwy ymaelodi, gall mudiadau ddangos yn gyhoeddus eu hymrwymiad i ragoriaeth wrth godi arian. Am ffi fach, gall aelodau ddefnyddio logo'r Bwrdd Safonau Codi Arian fel ased codi arian gwerthfawr.

Mae'r Bwrdd Safonau Codi Arian hefyd yn gweithredu fel sianel i dderbyn cwynion gan y cyhoedd, tra'n tawelu meddyliau rhoddwyr a chynydd hyder ledled y sector elusennau.

Dylai unrhyw fudiad sy'n trefnu i godi arian gan y cyhoedd ymaelodi â'r Bwrdd Safonau Codi Arian. Dylai mudiadau ymaelodi os ydynt:

Yn derbyn rhoddion ariannol, anrhegion o unrhyw fath, neu wasanaethau a chyfleusterau:

- Gan aelodau o'r cyhoedd, sefydlwyr, aelodau, noddwyr, cefnogwyr neu fusnesau;
- Drwy gasgliadau, apeliadau, cymynroddion, digwyddiadau, rhoi drwy'r gyflogres, nawdd, rhoi ar-lein neu drwy ymdrechion codi arian eraill.

Neu:

- Os oes ganddynt aelodau sy'n talu tanysgrifiad i ymaelodi neu i aros fel aelod o'r mudiad.

Mae busnesau neu gyrff ymgynghori sy'n cael eu contractio gan elusennau neu fudiadau gwirfoddol i godi arian gan y cyhoedd hefyd yn cael eu gwahodd i ymaelodi â'r Bwrdd Safonau Codi Arian.

Mae canllawiau pellach ar faterion statudol a rheoleiddio ar gael gan y cyrff canlynol:

Y Comisiwn Elusennau
PO Box 1227, Lerpwl L69 3UG
Ffôn: 0845 300 0218
www.charity-commission.gov.uk

Rhoi Cymru
WCVA, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd, CF10 5FH
Ffôn: 0800 2888 329
givingwales@wcva.org.uk

Y Sefydliad Codi Arian
Mae'r Sefydliad yn cyhoeddi tri chod ymarfer ar ddigwyddiadau:

- Codi arian ar gyfer digwyddiadau
- Digwyddiadau her elusennol
- Digwyddiadau codi arian awyr agored

www.institute-of-fundraising.org.uk
Park Place, 12 Lawn Lane,
Llundain, SW8 1UD
Ffôn: 020 7840 1000

Sefydliad Codi Arian Cymru
14-16 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 1DG
Ffôn: 029 2052 1272
Ffacs: 029 2052 1250
cymru@institute-of-fundraising.org.uk

Cyllid & Thollau EM - Elusennau
Gweler: *Trading and business activities* (materion treth)
St Johns House, Merton Road,
Glannau Merswy, L69 9BB
www.hmrc.gov.uk/charities
Ffôn: 08453 020203

Y Bwrdd Safonau Codi Arian
Hampton House,
20 Albert Embankment,
Llundain,SE1 7TJ
Ffôn: 0845 402 5442
Ffacs: 0845 402 5443
info@fsboard.org.uk
www.fsboard.org.uk/

Y Swyddfa Gartref
The good practice safety guide
http://police.homeoffice.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:16/04/2008

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk